## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (NORTH STREET, RHAEADR GWY, POWYS) (GWAHARDD AROS) 202-

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1(1), 2(1), 2(2), 4(2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd aros ar unrhyw adeg ar ochr orllewinol y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-orllewin o bwynt 28 o fetrau i'r gogledd-orllewin o linell cwrb ogleddol y B4518 Heol y Bont am bellter o 55 o fetrau yn North Street, Rhaeadr Gwy, Powys. Bydd esemptiadau, gan gynnwys un ar gyfer deiliaid bathodyn person anabl.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 23 Gorffennaf 2021 ymlaen, gellir gweld copi o'r Gorchymyn arfaethedig, y plan, y Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn a'r Gorchymyn sy'n cael ei ddirymu'n rhannol ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1412662.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu'n ysgrifenedig i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 13 Awst 2021. Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol penodol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd ymchwiliad cyhoeddus yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A470 TRUNK ROAD (NORTH STREET, RHAYADER, POWYS) (PROHIBITION OF WAITING) ORDER 202-

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 1(1), 2(1), 2(2), 4(2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27(1) of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the Order will be to prohibit waiting at any time on the western side of the length of the A470 trunk road that extends in a north-westerly direction from a point 28 metres north-west of the northern kerb line of the B4518 Bridge Street for a distance of 55 metres at North Street, Rhayader, Powys. There will be exemptions, including one for disabled person's badge holders.

During a period of 21 days from 23 July 2021, a copy of the proposed Order, plan, the Statement of Reasons for making the Order and the Order being partly revoked can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1412662.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent by e-mail to Transportordersbranch@gov.wales or in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 13 August 2021. Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with people and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process we may pass information to them, including information you have provided and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish for certain personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a public inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government